**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 24ain Gorffennaf, 2025 at 2.00 pm**

| | |
|---|---|
| **CYNGHORWYR YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Sirol (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Sirol (Is-Gadeirydd) |
| | Cynghorydd Sirol: A. Blackmore, S. Davies, C. Prosser, R. Guest, Sara Burch, John Crook, Tony Easson, Phil Murphy, Peter Strong and Ann Webb |

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Peter Davies | Prif Swyddog, Adnoddau |
| Jan Furtek | Prif Archwilydd Mewnol Dros Dro |
| Wendy Barnard | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Richard Jones | Rheolwr Perfformiad a Dirnadaeth Data |
| Jonathan Davies | Rheolwr Cyllid Cyfrifeg Canolog |
| Steve Wyndham | Audit Wales Officer |
| Hannah Carter | Dadansoddwr Perfformiad |
| Daniel Francis | Finance Business Partner Corporate |

**YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorydd Sirol David Jones and Malcolm Lane

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

2. **Datganiadau o Fuddiant**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

Ar ran y Pwyllgor, fe wnaeth y Cadeirydd longyfarch Jan Furtek a benodwyd i swydd Prif Archwilydd Mewnol.

Fe wnaeth y Cadeirydd hefyd groesawu Siwan Davies, Aelod Lleyg newydd, i'r cyfarfod.
https://youtu.be/ED6iYvC6bgg?si=YVRPIueUjHc2Qf4i&t=17

3. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

4. **Nodi'r Rhestr Weithredu o'r cyfarfod blaenorol.**

Nodwyd y Rhestr Weithredu o'r cyfarfod blaenorol:
https://youtu.be/ED6iYvC6bgg?si=0X2WYHjQdbiew7xt

- Cyfradd cwblhau hyfforddiant gorfodol ar Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd ar gyfer yr holl staff: Atebodd y Prif Archwilydd Mewnol y caiff y prif ddiweddariad ei gynnwys o fewn yr Asesiad Risg Gwrth-dwyll a ddisgwylir ym mis Hydref. Rhoddir diweddariad gyda rhai ystadegau anffurfiol yn y cyfarfod nesaf.

**5. Diweddariad a chynnydd ar y Cynllun Ariannol Tymor Canol Refeniw a Chyfalaf**

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151 adroddiad i roi'r adroddiad chwe-misol diweddaraf ar Gynllun Ariannol Tymor Canol y Cyngor, yn dangos tybiaethau wedi eu diweddaru, risgiau a chyd-destun strategol. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r rhagamcan o fwlch cyllideb ar gyfer 2026/27 a'r tymor canol ac yn amlinellu'r cyd-destun ar gyfer datblygu cyllideb gytbwys. Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, gwahoddwyd Aelodau'r Pwyllgor i ofyn cwestiynau:

https://youtu.be/ED6iYvC6bgg?si=eMCWGTpeKseoRmxJ&t=59

Fel y cynhwysir yn argymhellion yr adroddiad, fe wnaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- Nodi'r diffyg o £13.6 miliwn ar gyfer 2026/27 yn y rhagamcan o'r gyllideb refeniw a'r diffyg cronnus o £38.0 miliwn dros y tymor canol.
- Nodi'r amserlen gosod cyllideb amlinellol a amlinellir yn Atodiad 1.
- Nodi'r cynnydd ar gynllun cyflenwi y Strategaeth Ariannol Tymor Canol, fel y'i amlinellir yn Adran 14 Atodiad 1.

**6. Diweddariad Perfformiad Rheoli Trysorlys Ch1 2025/26**

Cyflwynodd y Partner Busnes Cyllid a'r Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151 Ddiweddariad Perfformiad Rheoi Trysorlys Chwarter 1 2025/26. Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, gwahoddwyd Aelodau'r Pwyllgor i ofyn cwestiynau:

https://youtu.be/ED6iYvC6bgg?si=t926uICpeEZEKXDy&t=2406

Yn unol ag argymhellion yr adroddiad, adolygodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ganlyniadau'r gweithgareddau rheoli trysorlys a'r perfformiad a sicrhawyd yn chwarter 1 fel rhan o'r cyfrifoldeb a ddirprwywyd i ddarparu craffu ar bolisi trysorlys, strategaeth a gweithgaredd ar ran y Cyngor.

**7. Datganiad Cyfrifon Drafft 2024/5 Cyngor Sir Fynwy**

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 1 y Datganiad Cyfrifon Drafft i roi cyfle i Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adolygu a rhoi sylwadau ar Ddatganiad Cyfrifon drafft 2024/25 Cyngor Sir Fynwy dan y cylch gorchwyl dilynol i'r Pwyllgor:

- Adolygu a chraffu ar faterion ariannol yr awdurdod;
- Goruchwylio trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod; ac
- Adolygu'r datganiadau ariannol ba baratowyd gan yr awdurdod.

Nododd Aelodau y gall y ffigurau a ddarparwyd newid yn ystod y broses archwilio allanol ac y caiff datganiad cyfrifon terfynol wedi ei archwilio ei gyflwyno i'r pwyllgor maes o law. Yn dilyn cyflwyno'r cyfrifon hyn, gwahoddwyd Aelodau i ofyn cwestiynau:
https://youtu.be/ED6iYvC6bgg?si=dcJIvVcgexA6akp3&t=2860

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 24ain Gorffennaf, 2025 at 2.00 pm**

Yn unol ag argymhellion yr adroddiad, fe wnaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- Adolygu Datganiad Cyfrifon drafft 2024/25 a rhoi sylw i unrhyw ymholiadau a sylwadau.
- Nodi, yn dilyn cwblhau'r broses archwilio fewnol, y caiff y Datganiad Cyfrifon wedi ei archwilio ar gyfer 2024/25, ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn.

Diolchwyd i'r Tîm am y gwaith o gwblhau'r datganiad cyfrifon drafft.

**8. Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2024/25**

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol fersiwn ddrafft o Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor cyn ei gynnwys yn Natganiad Cyfrifon 2024/25. Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, gwahoddwyd Aelodau'r Pwyllgor i ofyn cwestiynau
https://youtu.be/ED6iYvC6bgg?si=7iqT_3_NiXpB4BkQ&t=3613

Yn unol ag argymhellion yr adroddiad:

- Cyfrannodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio at briodoldeb a chynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft (2024/25);
- Ystyried yr adolygiad o effeithlonrwydd a'r asesiad a wnaed ar bob un o'r egwyddorion llywodraethu; a
- Chymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'w gynnwys o fewn Datganiad Cyfrifon Drafft 2024/25.

**9. Adroddiad Hunanasesiad Drafft 2024/25**

Cyflwynodd y Rheolwr Perfformiad a Dirnadaeth Data a'r Dadansoddydd Perfformiad yr Adroddiad Hunanasesiad Drafft 2024/25 i roi cyfle i'r pwyllgor i adolygu Adroddiad Hunanasesiad drafft Cyngor Sir Fynwy, yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).

https://youtu.be/ED6iYvC6bgg?si=_EZu5VNhcpIuj3BW&t=4309

Fel y'i cynhwysir yn argymhellion yr adroddiad, adolygodd y pwyllgor yr adroddiad hunanasesiad drafft 2024/25 ac ni ystyriai fod angen gwneud unrhyw argymhellion am newidiadau i'r casgliadau neu gamau gweithredu cyn i'r Cyngor ystyried yr adroddiad ym mis Medi.

Diolchwyd i'r Swyddogion am eu gwaith ar yr adroddiad.

**10. Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

Nodwyd y Blaengynllun gwaith.

Holodd Aelod am graffu ar y grant cymorth gwasanaethau bws a gweithgaredd grant rhwydwaith bysus. Cyngor Sir Fynwy yw'r arweinydd rhanbarthol ar gyfer dyrannu cyllid ac mae'n asiant ar ran Llywodraeth Cymru. Cytunwyd i drafod craffu ar y mater y tu allan i'r Pwyllgor.

https://youtu.be/ED6iYvC6bgg?si=cRjtevJEIGr6NrWs&t=5543

**11. Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 24ain Gorffennaf, 2025 at 2.00 pm**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir.

https://youtu.be/ED6iYvC6bgg?si=UKkn2N7fmaXTwXjX&t=5564

**12. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 11 Medi 2025**

**Gorffennodd y cyfarfod am 3.36 pm**